

Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Digwyddiadur Y Llywydd (Rhif 4– Ebrill - Awst 2018)

Mai 10 Mynychu **Cynhadledd Rhyng Ffydd Cymru** – *Reforming World Views – Perspectives on One Humanity, Morality and Home* -wedi ei drefnu gan yr Onyx Link Foundation. Roedd yn gynhadledd ddiwrnod cyfan gydag wyth o siaradwyr amrywiol yn cyflwyno safbwyntiau/profiadau/storiau o gefndir eu crefydd hwy. Roedd yn ddiwrnod diddorol ac addysgol gyda'r pwyslais amlwg iawn bod mwy yn gyffredin rhwng y crefyddau nag sy'n wahanol. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi gyrru neges o gymeradwyaeth i'r diwrnod ac roedd Pennaeth Cydraddoldeb, Llywodaraeth Cymru a rhai o'i staff yn bresennol.

Mai 24 Cyfarfod o'n Cyngor. Roedd cynrychiolaeth dda yn bresennol i ddiwrnod oedd gyda Agenda lawn iawn. Cafwyd cyflwyniad am Addysg Grefyddol yn Y Cwricwlwm newydd sy dan drafodaeth. (Adroddiad wedi ei yrru i'r Enwadau a'r Wasg). Cyflwynwyd adroddiadau am Hyfforddiant Diwinyddol ac mae awydd am fwy o wybodaeth eto ac hefyd Adroddiadau Gethin Rhys fel Swyddog Polisi Cytûn. Cafwyd cyflwyniad gan Wynford Ellis Owen am waith *Cynnal* -y gwasanaeth Cwnsela newydd ar gyfer clerigwyr o bob enwad a'u teuluoedd. Yn dilyn ymholiadau daeth Y Parch Debbie Hodge, Ysgrifennydd Caplaniaeth Grŵp Eglwysi Rhyddion Prydain i esbonio y sefyllfa gyfredol gan fod newidiadau mawr wedi digwydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Eto mae hwn yn faes y bydd CERC yn parhau i'w ystyried. Roedd gan Vaughan Salisbury restr sylweddol o Faterion Addysg i'w cyflwyno a chafwyd trafodaeth gychwynnol ar rai materion fydd yn cael sylw manwl yn y dyfodol ar ôl ymgynghori gydag unigolion ac Enwadau. Cafwyd yr Adroddiadau arferol gan yr Enwadau a chan Y Trysorydd a'r Parch Paul Rochester, Llundain. Cytunwyd i newid y cyfansoddiad er mwyn enwebu hyd at ddau o'r De a dau o'r Gogledd i fod yn aelodau gan fod y ddwy Adran wedi dod i ben. Nodwyd y bydd Medalau Gee yn cael eu cyflwyno yn y Gogledd eleni ac yn y De a'r Gogledd yn 2019. Gyrrwyd neges i ddyuno yn dda i'r Parch Geraint Tudur ar ei ymddeoliad ac i longyfarch Y Parch Dyfrig Rees a apwyntiwyd i'w olynu. (Gellir cael copi llawn o'r Cofnodon drwy gyfrwng e bost gan Helen Jones, Ysgrifennydd CERC - rhys.helen.jones@btinternet.com)

Meh 6 Cyfarfod lluosog o **Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd** yn Y Senedd. Y pwnc oedd Materion Trawsryweddol: Safbwyntiau Crefyddol. Cafwyd agoriad grymus gan Yr Esgob Gregory Cameron a osodd ei safbwynt yn glir gydag argyhoeddiad. Dywedodd nad oes unrhyw ddisgeidiaeth Beiblaidd ar y Trawsryweddol a chyfeiriodd at ddyfyniadau Beiblaidd a'r gwahanol ddeghongliadau a roddir iddynt. Nododd enghreifftiau o'i brofiad personol yn delio gyda'r Trawsryweddol. Yn y pen draw roedd yn rhaid i Gristion dderbyn bod dysgeidiaeth Iesu yn dangos bod pob unigolyn yn haeddu cariad Duw. Cafwyd trafodaeth ddofn ac ystyrlon. Pwysleiswyd na ddylai'r eglwys fod yn ddyfarniadol ar y mater yma a bod angen ystyried pob achos unigol a'r modd y maent yn dod at Dduw.

Meh 11-12 Mynychu **Cynhadledd Flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru** yn Nant Gwrtheyrn. Cael y cyfle, wrth gyfarch ar ran y gwesteion, i gydnabod a diolch am gyfraniad y Bedyddwyr i CERC dros y blynyddoedd. Gwerthfawrogi'n fawr cael cynryd rhan yng Oedfa Sefydlu Aled Davies fel Llywydd UBC am 2018-19. Roedd Rhaglen gyflawn a diddorol iawn dros y tridiau. Traddodwyd Darlith Goffa Lewis Valentine yn afaelgar gan Pryderi Llwyd Jones. Cafwyd nifer o sgysiau anffurfiol diddorol gydag unigolion a myfyrdod boreol effeithiol gan Rob Nicholls. Cafwyd nifer o gyflwyniadau hynod o ddiddorol am waith cenhadol a chyfleodd mewn gwahanol feysydd. Roedd llawer mwy ond nid oeddwn yn dyst i'r rheini!

Gorff 9-11 Mynychu **Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraid Cymru** yn Wrecsam – dan wahoddiad. Cyd gerdded yng ngorymdaith Y Llywydd wrth i'r Parch Brian Huw Jones drosglwyddo'r Lywyddiaeth i'r Parch Brian Matthews. Cafwyd lluo o adroddiadau, cyflwyniadau a darlithoedd ynghyd ag oedfaon bendithiol. Ymhlith y cyflwyniadau mwyaf cofiadwy a bendithiol oedd un Y

Parchg. Ddr Robert Cunville o Eglwys Bresbyteraidd India a siaradodd am ei brofiadau a'i wasanaeth gyda Y Parch Billy Graham am flynyddoedd.

Gorff 13 Cyfarfod o Gyngor Rhyng Ffydd Cymru. Trawsdoriad da o gynrychiolwyr y gwahanol grefyddau a phawb yn cyfrannu yn agored. Cafwyd cyflwyniad gan swyddogion o Lywodraeth Cymru am Fesur fydd yn cynnig dileu yr amddiffyniad o gosb resymol i blant.

Awst 11 Helen Jones (Ysgrifennydd CERC) a minnau yn cynnal yr Oedfa foreol ar stondin CYTUN yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Rheinallt A Thomas,
Llywydd,
Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Gwelfor,
65 Lacuna
Windsor Esplanade,
CAERDYDD, CF10 5BG
e bost: rheinallt@talktalk.net